YR ATODLEN

Cyfansoddiad

# RHAN 1

## Gweithdrefn, cyfarfodydd a phleidleisio

**Cadeirio cyfarfodydd**

**1.** Rhaid i gyfarfodydd CBC y Gogledd gael eu cadeirio gan—

(a) y cadeirydd a benodir o dan baragraff 2, neu

(b) os yw'r cadeirydd yn absennol, yr is-gadeirydd a benodir o dan y paragraff hwnnw.

**Penodi cadeirydd ac is-gadeirydd**

**2.**—(1) Yng nghyfarfod cyntaf CBC y Gogledd—

(a) penodi cadeirydd ac is-gadeirydd fydd y busnes cyntaf a drafodir, a

(b) rhaid i'r aelod cyngor ar gyfer cyngor bwrdeistref sirol Conwy gadeirio'r cyfarfod hyd nes y penodir y cadeirydd (ac mae'r cadeirydd i gadeirio gweddill y cyfarfod).

(2) Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol o CBC y Gogledd—

(a) rhaid cadarnhau bod penodiad y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn parhau, neu

(b) rhaid penodi cadeirydd newydd, is-gadeirydd, neu'r ddau.

(3) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi o blith yr aelodau cyngor.

(4) Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd gael eu penodi, neu eu cadarnhau gan—

(a) yr aelodau cyngor, a

(b) unrhyw gyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

(5) Caiff person a benodir yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelodau eraill.

(6) Os yw swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, rhaid penodi i lenwi'r swydd wag yn y cyfarfod cyntaf CBC y Gogledd a gynhelir ar ôl i'r swydd ddod yn wag.

(7) Os yw swydd y cadeirydd yn wag, caniateir i'r is-gadeirydd gyflawni swyddogaethau cadeirydd hyd nes y llenwir y swydd wag.

(8) Er gwaethaf paragraff 1, pan fo swyddi'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn wag ar yr un pryd, rhaid i'r cyfarfod y cyfeirir ato yn is-baragraff (6) gael ei gadeirio, hyd nes y llenwir un o'r swyddi gwag, gan aelod cyngor a bennir gan gyngor bwrdeistref sirol Conwy.

**Cyfarfodydd cyffredinol blynyddol**

**3.** Rhaid i CBC y Gogledd o gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad a bennir gan y CBC.

**Cyfarfodydd eraill**

**4.**—(1) Caiff CBC y Gogledd gynnal cyfarfodydd eraill ar ddyddiadau a bennir yn y rheolau sefydlog.

(2) Caniateir i gyfarfod eithriadol o CBC y Gogledd gael ei alw ar unrhyw adeg gan unrhyw berson sydd â hawl i bleidleisio ar fater sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

**Cworwm**

**5.** Nid oes unrhyw fusnes i'w drafod mewn perthynas â mater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Gogledd onid yw—

(a) yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—

(i) rheoliad 17, neu

(ii) paragraff 7 o'r Atodlen hon,

yr holl bersonau sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad yn bresennol, a

(b) mewn unrhyw achos arall, dim llai na 70% o'r personau sydd â hawl i bleidleisio yn bresennol.

**Y weithdrefn bleidleisio**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) o'r paragraff hwn a pharagraff 7 o'r Atodlen hon, mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o CBC y Gogledd—

(a) ni chaiff nifer y cyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn fwy na nifer yr aelodau sydd â hawl i bleidleisio,

(b) un bleidlais sydd gan bob person sydd â hawl i bleidleisio,

(c) mae'r mater i'w benderfynu drwy fwyafrif syml, a

(d) os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal nid yw'r mater yn cael ei dderbyn.

(2) Yn achos mater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) paragraff 7 o'r Atodlen hon,

nid yw is-baragraff (1)(c) a (d) yn gymwys.

(3) Pan fo'r mater sydd i'w benderfynu yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol, nid yw is-baragraff (1)(d) yn gymwys a'r cadeirydd (neu'r is-gadeirydd os yw'n cadeirio) sydd â'r bleidlais fwrw.

**Mabwysiadu gweithdrefn bleidleisio wahanol**

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i ofynion y paragraff hwn, caiff CBC y Gogledd fabwysiadu system bleidleisio wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu ganddo.

(2) Ond ni chaiff CBC y Gogledd fabwysiadu gweithdrefn wahanol mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu o dan—

(a) rheoliad 17, neu

(b) y paragraff hwn.

(3) Mewn perthynas â gweithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn—

(a) rhaid iddi bennu pa rai o blith y materion sydd i'w penderfynu gan CBC y Gogledd y mae'n gymwys iddynt;

(b) ni chaiff addasu effaith paragraff 6(3).

(4) Rhaid i weithdrefn a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei mabwysiadu drwy gytundeb unfrydol—

(a) aelodau CBC y Gogledd, a

(b) unrhyw gyfranogwyr cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio ar fabwysiadu'r weithdrefn.

(5) Rhaid i unrhyw weithdrefn bleidleisio wahanol a fabwysiedir o dan y paragraff hwn gael ei nodi yn y rheolau sefydlog.

### Rheolau sefydlog

**8.**—(1) Rhaid i CBC y Gogledd wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei drafodion a'i fusnes i'r graddau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan y Rheoliadau hyn nac unrhyw ddeddfiad arall.

(2) Caniateir amrywio'r rheolau sefydlog neu caniateir eu dirymu a'u hamnewid.